

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **11 Medi 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-09/18: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Sian Williams

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Wayne Roberts Cyng. Eirwyn Williams;
Clerc – Dr Catrin Jones.

2-09/18 Ymddiheuriadau:

Cyng. Elizabeth George; Cyng. Dafydd Lloyd;

3-09/18: Datgan diddordeb

4-09/18 Cadarnhau cofnodion mis Gorffennaf 2018

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-09/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-09/18: Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd -Gwasanaethau leuenctid Cyngor Gwynedd . Llythyr ar e-bost dyddiedig 3-07-2018 –

Derbyniwyd llythyr yn nodi y bydd gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cychwyn i bobl ifanc ym mhob rhan o'r sir. Oherwydd hyn ni fyddai'r Cyngor yn cynnal Clwb leuenctid Cymdeithasol traddodiadol mewn rhai pentrefi penodol dros fisoedd y Gaeaf o Fedi 2018 ymlaen. Fel Cyngor maen yn awyddus i glywed gan unrhyw gynghorau cymuned a thref sydd yn awyddus i ystyried parhau i gynnal Clwb leuenctid Cymdeithasol yn eu cymuned. Maent y hapus i gyfarfod er mwyn gweld sut medrant gefnogi sefydlu'r trefniadau hyn gan gynnwys unrhyw drefniadau fydd eu hangen i bontio o'r hen drefn i Glwb Cymdeithasol newydd.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth. Roedd y Cyngor eisoes wedi danfon llythyr i fynegi consyrn am fwriadau Cyngor Gwynedd.

- b. Cyngor Gwynedd - Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio. Llythyr ar e-bost - 10-08-18.

Roedd y Clerc wedi cylchredeg ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad diwethaf gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn 2017 - ni dderbyniwyd ymateb nag ychwaith copi o adroddiad o'r adolygiad Roedd yr ymgynghoriad cyfredol yn holi 2 gwestiwn:

- Yn ddelfrydol, beth 'rydych chi yn dymuno ei gael ei weld gan y Gwasanaeth Cynllunio?
- Yn ddelfrydol, sut y byddech am i ni ddarparu hyn i chi?

Yn yr ymateb i graffu ar y drefn cynllunio ym mis Chwefror 2017 roedd y Cyngor Tref wedi cynnig y pwyntiau canlynol er mwyn gwella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio:

- i. Dylai'r Cyngor dderbyn e-bost uniongyrchol am bob cais priodol i'r ardal a chopi o'r cynlluniau drwy'r post.
- ii. Dylai fod proses ar gael i sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ymateb i e-byst a galwadau ffôn yn amserol i ateb cwestiynau sy'n codi yn eu cylch.
- iii. Os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai'r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid o'r cais gwreiddiol os o gwbl.
- iv. Os yw'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu cais, yna mi dyle y cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Sir, ac ni ddylid cael ei benderfynu gan Swyddogion Cynllunio.

Penderfyniad: I ddanfôn yr un sylwadau fel ymateb ac i nodi fel ymarfer dda bod y Cyngor Tref yn disgwyl ymateb/copi o ganlyniad yr arolwg.

c. Cyngor Gwynedd – Llythyr par Gwylanod dyddiedig 20-08-2018

Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd yn tynnu sylw at risg iechyd a diogelwch y cyhoedd a niwsans o fewn yr amgylchedd trefol. Roedd y Cyngor wedi darparu copi o lyfryn a phosteri ar gyfer eu darparu i fusnesau. Roedd y Cyngor hefyd wedi paratoi arwyddo alwminiwm ar gyfer eu gosod mewn mannau lle mae bwydo gwylanod yn broblem ac yn holi os oedd llecynnau o'r fath yng Nghriccieth y byddai'r Cyngor Tref yn dymuno i gael arwyddion "dim bwydo" oherwydd tystiolaeth o broblem gwylanod.

Penderfyniad: I ofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion alwminiwm yn y lleoliadau yma: ger bwyty Dylan's, ger gorsaf y Bad Achub, ger gwesty'r Marine, ac ym Maes Aberistedd.

- d. Cyngor Gwynedd - Rhaglen waith Trafnidiaeth a Phrifyfyrdd - Mis Medi 2018

Nodwyd llythyr 24 Awst yn cyfeirio at raglen waith y mis yng Nghriccieth:

A 497 Garej Londis, Draeaniad;
Caffi Cwrt; Gwaith ar y pafin;
Lon Dinas a Rhos Ffynnon, Gwaith slyri ar droedffordd

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- e. Llywodraeth Cymru Cais am dystiolaeth - Darparu tai drwy'r system gynllunio -e-bost 24-07-2018 (cylchredwyd eisoes)

Penderfyniad: Nid oedd y Cyngor Tref am yrru sylwadau

- f. Un Llais Cymru - Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr - 16 Gorffennaf 2018 - e-bost 27-07-2018

Nodwyd cynnwys yr e-bost gan gynrychiolydd Un Llais Cymru ar y Grŵp

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- g. Un Llais Cymru - Sesiynau Hyfforddiant a gynhelir yn: Cyngor Tref Abergele - e-bost 24 Awst 2018 a hefyd cyrsiau ychwanegol yn Llangefni.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- h. Cysylltu Cymunedau yng Nghymru - Rhwydweithiau Arloesi Cludiant- e-bost Un Llais Cymru 31 Awst 2018

Nodwyd bod Cymdeithas Cludiant Cymunedol yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ystod yr hydref ar gyfer ei Rhwydweithiau Arloesi Cludiant i gael y rheini a oedd â diddordeb mewn cludiant hygyrch a chynhwysol gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar gludiant sy'n hanfodol yn gymdeithasol - roedd y Clerc wedi cysylltu i holi os oedd Cyngor Gwynedd am fynychu gan fod pryder wedi codi gan y Cyngor Tref am wasanaethau bws yng Nghriccieth – nid oedd y Clerc wedi derbyn ymateb i'r ymholiad

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- i. Neuadd Goffa Criccieth – Adroddiad ar Ddigwyddiad

Nodwyd bod adroddiad wedi ei dderbyn gan Gadeirydd y Neuadd Goffa am y difrod i'r adeilad wrth i ddarn mawr gwmpo o'r to ar ddydd Mawrth 31 Gorffennaf.-Roedd hyn o dan reolaeth a'r Neuadd wedi hysbysebu'r yswirwyr, HSE a Chyngor Gwynedd a mesurau diogelwch wedi eu cymryd. Roedd asesiad o'r camau nesaf yn cymryd lle.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a diolch i'r Neuadd am yr adroddiad a gofyn am ddiweddariad maes o law.

7-09/18: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/0720/35/HY Cais i osod arwyddion wedi eu goleuo mewnol gan gynnwys arwydd 'totem' - Regent Garage, Caernarfon Road, Criccieth, LL52 OAP
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
- b. Ers y cyfarfod diwethaf roedd un cais cynllunio wedi ei gylchredeg ar gyfer sylwadau gan fod angen ymateb arno cyn cyfarfod y Cyngor sef: C18/0681/35/LL - Ymestyn ffenestr dormer bresennol Westville, Muriau, Criccieth, LL52 ORU. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais.

8-09/18 Llenwi Sedd Wag ar y Cyngor Tref

Roedd un llythyr cais yn mynegi diddordeb yn y sedd wag wedi cael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau a'r llythyr wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor yn dilyn hysbysebu gan y Cyngor ers y cyfarfod diwethaf.

Penderfyniad: I gyfethol a chroesawu Dr Ian Rees yn Gyngorydd i'r Cyngor Tref. Disgwylir i Dr Rees lenwi'r ffurflen derbyn swydd erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ym mis Hydref.

9-09/18 Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor Tref 2017-18

Cafwyd adroddiad gan y Clerc am yr ymateb i bwyntiau a oedd wedi eu codi gan yr Archwilydd Allanol ar gyfer y cyfrifon.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

10-09/18 Bocsiau Planhigion ger y Pines = trafod opsiynau ar gyfer adnewyddu

Nodwyd bod y Clerc wedi cadarnhau gyda Chyngor Gwynedd y penderfyniad i waredu'r bocsiau cyfredol ac i wahodd Cyngor Gwynedd i yrru cynlluniau ar gyfer rhai newydd. Roedd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd y gwaith o waredu'r bocsiau yn digwydd yn yr hydref ac y byddant yn ymgynghori gyda'r Cyngor am eu cynlluniau. Roedd Ebst wedi cyrraedd gan Criccieth yn eu Blodau i gynnig y dylid ychwanegu at y gofodau'r parcio sydd ar gael o gwmpas o ganlyniad i gael bocsiau llai.

Penderfyniad: Roedd y Cyngor yn credu y byddai'r opsiwn o ail-gyflunio i greu gofodau parcio ychwanegol yn rhy gostus ac nid oeddynt am holi Cyngor Gwynedd i ychwanegu at y gofodau parcio ger y Pines.

11-09/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod 4 Medi 2018 a oedd wedi ei gylchredeg. Roedd y cofnodion y cynnwys manylion am y gwariant ar y prosiect. Adroddodd y Clerc ar y gwaith ar y prosiect - a'r gweithgareddau ar gyfer wythnos 4-11 Tachwedd i gynnwys arddangosfa yn y Neuadd Goffa a fyddai'n agor prynhawn Sul 4 Tachwedd, noson "Hedd Wyn" ar 7 Tachwedd, a digwyddiadau Sul y Cofio gan gynnwys adloniant yn y Neuadd Goffa yn y prynhawn a the, a goleuo'r Dorch gyda'r hwyr. Bydd is-bwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cyngor yn cwrdd ar 7 Medi i gynllunio ar gyfer goleuo'r Dorch. Yn ychwanegol i hyn bydd darlith gyhoeddus ar nos Wener 9 Tachwedd yn Amgueddfa Lloyd George. Bydd posteri cyhoeddusrwydd, pamffledi a llyfryn ar y prosiect yn cael eu cynhyrchu.

Penderfyniad: I nodi'r gwaith ardderchog a chanlyniadau cyffrous y prosiect ac i ddiolch yn fawr i'r Grŵp Llywio am y gwaith.

12-09/18: Cynllun Cymunedol Criccieth - diweddariad

Nodi bod y trydydd gweithdy yn cael ei gynnal ar nos Fercher 19 Medi 2018 yn Neuadd Goffa Criccieth.-

Penderfyniad: Croesawu a derbyn y wybodaeth.

13-09/18: Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Nodwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gyda sylwadau'r Cyngor Tref yn synnu bod y mater yma yn cymryd mor hir ac yn nodi'r angen am y cyngor cyfreithiol er mwyn symud ymlaen gyda'r drafodaeth am ddyfodol yr adeilad.

Penderfyniad:. Derbyn y wybodaeth.

14-09/18: Torri gwair yn y dref

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i fynegi'r pwyntiau a wnaethpwyd am safon y torri gwair, a'r Swyddog wedi gofyn i'r cyngor dynnu sylw at faterion pellach fel bod modd monitro'r sefyllfa yn syth ar ôl y toriad.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

15-09/18: Parcio yng Nghriccieth

Roedd y Clerc wedi sgwennu at y ddau westy ac wedi derbyn ymatebion ganddynt a oedd wedi eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor. Roeddent am gadw golwg ar y sefyllfa.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth, gan nodi bod y sefyllfa wedi gwella ers yr ohebiaeth.

16-09/18 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

17-09/18 Meinciau Tref Criccieth

Dim bydd i'w adrodd.

18-09/18: Derbyniadau

Cyngor Gwynedd – Praesept 2 2018-19

£18,000

19-09/18: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £72.90 (siec 101264)
- Cyflog y Clerc (Awst) £659.98(siec 101265)

• Atkin Groundworks Ltd	£879.98(siec101266)
• Grŵp Llandrillo-Menai (Cofio Cyfraniad Criccieth)	£4,385.89 (siec101267)
• RBL Poppy Appeal	£17.00 (siec 1012658)
• Clerc (costau teithio)	£19.30(siec 1012659)

Penderfyniad: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

20-09/18: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 9 Hydref2018.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 1 Hydref 2018****